

Pentecost i'r Plant

Paratowch ymlaen llaw

- 1.Chwythwch awyr i nifer o falw̄ns cyn y gwasanaeth (o leiaf un ar gyfer pob plentyn ac un i chi) Bydd angen un balw̄n heb awyr arnoch hefyd.
- 2.Clymwch clymwch label anrheg at bob balw̄n
- 3.Ysgrifennwch ar bob label - enw gwlad ar un ochr a'r geiriau ar yr ochr arall (gweler y tabl isod).



- 1:Gwahoddwch y plant i'r blaen
- 2: Rhowch falw̄n i bob un ond cadw'r un gyda label Cymru i chi eich hun.
- 3: Esboniwch fod y Pentecost yn gyfle i gofio fod Duw am i'r Newyddion Da am Iesu Grist fynd allan i bobl o bob gwlad ac iaith drwy'r byd. Beth am feddwl am rai o'r gwledydd a'r ieithoedd yna nawr.
- 4:Edrychwch ar y labeli ar y balw̄ns yn eu tro – beth yw enw'r wlad? Oes rhywun o'r gynulleidfa wedi bod yno? Ydych chi yn deall y geiriau ar y label?
- 5:Yn olaf, edrychwch ar y balw̄n o Gymru. Rydym yn deall y neges sydd arno – mae'n rhaid bod Duw am i'r neges yma fynd i ni bobl Cymru.
- 6: Wrth gwrs, nid **balw̄ns** mae Duw wedi dewis eu defnyddio i gario'r neges ond **pobl**. Ar y Pentecost cyntaf, daeth yr Ysbryd Glân i lawr ar ddilynwyr Iesu a rhoi'r gallu iddyn nhw siarad am Iesu. Dros gyfnod o gannoedd o flynyddoedd, mae Cristnogion wedi pasio'r neges ymlaen o un i'r llall fel bod pobl newydd yn clywed o hyd ac o hyd. Dyna sut rydym ni yma heddiw wedi clywed y Newyddion Da. Nawr, **ein tro ni yw hi** i basio'r neges ymlaen.
- 7: Edrychwch ar y balw̄n yma (cydiwch mewn balw̄n heb awyr)– dydy e dda i ddim heb i ni roi awyr ynddo. Mae'r un peth yn wir amdanom ni – fyddwn ni ddim yn dda am ddweud ein neges heb i ni gael nerth Ysbryd Duw y tu mewn i ni i'n helpu.
- 8:Gwahoddwch y plant i fynd â balw̄n yr un adref ac i fynd i chwilio ar y We gyda chymorth eu rhieni am rai ffeithiau newydd am y wlad sydd ar y label.

Cymru	Iesu yw'r Arglwydd	Sbaen	Jesús es el Señor
Gwlad y Basg	Jesus Jauna da	Ffrainc	Jésus est le Seigneur
Iwerddon	Is Iosa an Tiarna	Yr Almaen	Jesus ist der Herr
Gwlad Pwyl	Jezus Chrystus jest Panem	Romania	Isus este Domn
Norwy	Jesus er Herre	Sweden	Jesus är Herre
Yr Eidal	Gesù è il Signore	Portiwgal	Jesus é o Senhor

